**Eitem ar yr agenda: 3(ii)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Hydref 9fed 2006 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 11.30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch, (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Prif Swyddog, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S. Roberts (Pennaeth yr Adran Rheoli Adnoddau); H Angel (Swyddog Cefnogi Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog); Rh Williams (Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

## RHAN I

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |

P S Claydon — Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau)

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd na dderbyniodd ef na'r Clerc unrhyw eitemau ar gyfer eu hystyried.

Ymddiheurodd y Cadeirydd i'r Panel nad oedd fersiynau Cymraeg ar gael o rai adroddiadau. Roedd hyn oherwydd fod Cyfieithydd y Gwasanaeth wedi gadael yn ddiweddar i ddilyn gyrfa academaidd, a byddai'r Gwasanaeth heb gyfieithydd am gyfnod byr hyd nes y byddai'r cyfieithydd newydd yn ei swydd.

## 3) Cynllun Lleihau Risg 2007/08

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y fersiwn ddrafft o Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod 2007/08. Esboniodd fod yr adroddiad yn gofyn i'r Panel lunio argymhelliad ynghylch mabwysiadu'r Cynllun i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ar Hydref 23ain 2006, a chytuno ar eiriad ymateb yr Awdurdod i'r materion a godwyd. Roedd Atodiad 1 i'r adroddiad yn rhestru ac yn dosbarthu'r holl ymatebion a dderbyniwyd, ac yn nodi geiriad arfaethedig ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr 16 o ymatebwyr.

Yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg a gynhaliwyd yn union o flaen cyfarfod y Panel, roedd Rheolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth wedi rhoi dadansoddiad manwl i'r aelodau o'r ymatebion a dderbyniwyd ynghyd ag esboniad o'r ymatebion arfaethedig ar ran yr Awdurdod. Roedd y Gweithgor wedi dod i'r casgliad y dylai'r Panel Gweithredol argymell i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun ar gyfer 2007/08. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y mater o osod systemau taenellu dŵr ym mhob ysgol newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod fynd ar ôl y mater hwn yn y misoedd i ddod, ac yn benodol lobïo pob aelod o'r Cynulliad a darpar ymgeiswyr i'r Cynulliad cyn yr etholiadau i'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Cynigiodd y Cynghorydd W J Chorlton y dylai'r Awdurdod ysgrifennu at y prif bleidiau gwleidyddol yn gofyn iddynt gynnwys polisi yn eu maniffesto etholiadol yn ei gwneud yn orfodol i osod systemau taenellu dŵr ym mhob ysgol newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu. Eiliwyd y cynnig hwn ac felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***nodi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Lleihau Risg 2007/08;***
ii. ***argymell i'r Awdurdod Tân llawn yn ei gyfarfod nesaf y dylai fabwysiadu Cynllun Lleihau Risg 2007/08 fel y'i lluniwyd, yn amodol ar rai cywiriadau bychain o ran golygu yn unig;***

*iii.* ***bod geiriad arfaethedig ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd ynghylch Cynllun drafft 2007/08 fel a gyflwynwyd yn Atodiad 1; a***

*iv.* ***bod llythyr yn cael ei anfon at y prif bleidiau gwleidyddol yn gofyn iddynt gynnwys yn eu maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf bolisi fyddai'n ei gwneud yn orfodol i osod systemau taenellu dŵr ym mhob ysgol newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu.***

## 4) Y Cynllun Gwella drafft ar gyfer 2006/07 ar gyfer ei gymeradwyo

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am y trefniadau am y tro ar gyfer llunio Cynlluniau Gwella gan awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn 2006/07. Esboniodd fod y Cynllun Gwella drafft yn ogystal â rhestru manylion am y blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2006/07, hefyd yn rhoi crynodeb o gyrhaeddiad yr Awdurdod mewn perthynas â'r targedau a osodwyd yn ystod 2005/06 ac yn rhestru'r meysydd y byddai'n ceisio gwella ymhellach arnynt yn ystod 2007/08.

Yna, cafodd yr aelodau eu briffio gan Reolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth am y cefndir cyfreithiol oedd wedi arwain at sefyllfa lle roedd raid i'r Awdurdod gyhoeddi a chymeradwyo Cynllun Gwella ar gyfer 2006/07 a hynny ar fyr rybudd, erbyn Hydref 31ain. Er bod raid i Gynlluniau Gwella gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn, roedd y Cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Panel ei ystyried gyda'r bwriad iddo lunio argymhelliad ar gyfer yr Awdurdod o ran ei gymeradwyo. Roedd yr aelodau'n cytuno â barn y Clerc y dylai'r Awdurdod gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad i geisio ei chael i gyhoeddi'r Canllaw ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella – Tân ac Achub (WPI-FRA) yn ddi-oed, gan y byddai hynny'n gymorth i awdurdodau wrth lunio Cynlluniau Lleihau Risg yn y dyfodol.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton, dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod yr ystadegau am nifer y staff o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig wedi eu casglu a'u cofnodi yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

*i.* ***nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2006/07 cyn Hydref 31ain 2006;***

*ii.* ***cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Gynllun Gwella 2006/07 i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod nesaf ar Hydref 23ain 2006; a***

*iii.* ***chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad i geisio ei chael i brysuro i gyhoeddi'r Canllawiau ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub (WPI-FRA).***

## 5) Y Weithdrefn Gwynion – Cam 3

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn gofyn i'r Panel gytuno ar drefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion yng ngham 3 o'r weithdrefn gwynion, ac argymell i'r Awdurdod Tân ei fod yn mabwysiadu'r trefniadau hyn yn y dyfodol.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc fod yr Awdurdod, pan gafodd ei sefydlu yn 1996, wedi mabwysiadu gweithdrefn gwynion oedd yn rhestru tri cham i'r broses gwynion, a'r cam olaf oedd cais i'r gŵyn gael ei dwyn i sylw'r Awdurdod Tân. Rhoddodd y Clerc wybod i'r Panel mai da oedd na chyrhaeddodd yr un gŵyn y cam olaf tan nawr, ond roedd cŵyn wedi dod i law yn ddiweddar oedd yn gofyn yn benodol i gael ei chyfeirio i'r Awdurdod. Aeth yn ei flaen i esbonio gan nad oedd gan yr Awdurdod unrhyw weithdrefn ysgrifenedig ar sut i ymdrin â chwynion yn y trydydd cam a rhoi gwrandawiad iddynt, fod y papur o'u blaenau yn argymell gweithdrefn y gellid ei mabwysiadu ar gyfer ymdrin â'r gŵyn oedd mewn llaw, ac y gellid hefyd argymell ei mabwysiadu fel gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath yn y dyfodol. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau ei fod wedi ystyried a fyddai'n briodol i'r ddwy ochr holi ei gilydd yn y gwrandawiad, ond roedd wedi dod i'r casgliad y byddai hynny'n amhriodol yn y cam hwn. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd y Clerc mai'r trydydd cam yn y weithdrefn gwynion oedd cam olaf y weithdrefn cwynion fewnol, ond fe allai achwynwyr fwrw ymlaen â'u cwynion trwy'r sianelau nodwyd ym mharagraff 2 o'i adroddiad. Dywedodd hefyd, hyd y gwyddai ef, nad oedd yr un o aelodau'r Panel wedi cael dim i'w wneud â'r gŵyn oedd yn gofyn am sylw'r Awdurdod, ac felly nid oedd neb i'w atal rhag gwasanaethu ar yr is-bwyllgor arfaethedig. Felly:

***Penderfynwyd**: -*

- ***i.*** ***penodi is-bwyllgor o dri aelod, sef y Cynghorwyr E C George, W J Chorlton a S Frobisher, i wrando ar gŵyn yn y trydydd cam;***
- ***ii.*** ***bod y drefn ar gyfer y gwrandawiad fel a nodwyd ym mharagraff 7 o'r adroddiad; ac***
- ***iii.*** ***i argymell i'r Awdurdod Tân ei fod yn mabwysiadu'r trefniadau hyn yn ffurfiol ar gyfer unrhyw wrandawiad cŵyn yn y trydydd cam yn y dyfodol.***

## 6) Materion Brys

Dim.

## 7) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) yn y dyfodol

Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd**: - trefnu cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar Hydref 23ain 2006.*

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod gweddill yr eitemau busnes heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg.  Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol,1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

**<u>RHAN II</u>**

### 8) "Tân 1af" – Prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am agweddau ariannol ar Brosiect Ailfodelu Tân Cyntaf y Rhyl.  Rhoddodd wybod i'r Panel fod ei adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth gefndirol berthnasol i'r prosiect arloesol hwn, yr amserlen arfaethedig o ran y gost a'r gwaith adeiladu, a gwybodaeth am grantiau a chyfraniadau at gost y cynllun a oedd wedi eu sicrhau ar lafar i'r Awdurdod.  Cafodd yr aelodau wybod hefyd am y ffynonhellau cyllid posib eraill oedd wrthi'n cael eu hymchwilio.  Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wybod i'r aelodau fod yr atodiadau i'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau a'r opsiynau ar gyfer ariannu'r prosiect.  Yna, rhestrodd y Trysorydd agweddau ariannol y prosiect a'r risgiau i'r Awdurdod oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau cyllido a gyflwynwyd iddynt.  Pwysleisiodd na dderbyniwyd unrhyw gadarnhad ysgrifenedig ynghylch y symiau ariannol oedd i'w dyfarnu tuag at y prosiect, a hynny er gwaethaf gohebiaeth a nifer o sgyrsiau rhwng y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) a gweision sifil ynglŷn â'r sicrwydd a dderbyniwyd ar lafar gan Lywodraeth y Cynulliad y byddai'r arian a addawyd yn dod.  Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wybod i aelodau'r Panel ei fod wedi cael gwybod, yn ystod sgwrs ffôn gydag un o weision sifil Llywodraeth y Cynulliad ddiwedd yr wythnos cynt, fod y Gweinidog wedi derbyn atebion i'w holl gwestiynau, ond na ellid rhoi awgrym pryd roedd disgwyl iddi gyhoeddi penderfyniad ffurfiol ynghylch yr arian grant.

I ateb cwestiynau gan yr aelodau, rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks fanylion cyrff ac asiantaethau oedd wedi cadarnhau eu diddordeb mewn defnyddio'r adnoddau a fyddai ar gael yn yr orsaf newydd. Roedd hefyd yn cadarnhau nad oedd safle'r orsaf dân o fewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Sicrhawyd y Panel gan Mr Stephen Roberts, Pennaeth yr Adran Rheoli Adnoddau, fod y ffigurau oedd yn yr adroddiad yn cynnwys elfen o ddiogelwch rhag chwyddiant.  Addawodd hefyd ddarparu ffigurau cost am waith adnewyddu sylfaenol i'r orsaf.  Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc fod datblygu'r cysyniad o orsafoedd tân cymunedol wedi ei gynnwys yng Nghynllun Integredig gwreiddiol yr Awdurdod ar Reoli Risg (IRMP) ac yn ei Gynllun Lleihau Risg.  Roedd y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru hefyd yn dadlau bod

angen i orsafoedd tân fod yn fwy hygyrch ac ar gael i'w defnyddio gan fudiadau cymunedol ac ieuenctid.

Roedd rhai aelodau o'r farn fod y ffaith fod dros 1000 o bobl wedi mynychu'r diwrnod agored, pan ddangoswyd y cynlluniau ar gyfer yr orsaf i'r cyhoedd, yn profi bod y prosiect wedi cael ei groesawu'n gynnes gan y gymuned leol. Roedd yr adborth gan y rhai a fynychodd, ar y cyfan, wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt. Roedd rhai aelodau eraill o'r farn fod angen i'r Awdurdod ddangos ychydig o bwyll er mwyn diogelu ei sefyllfa ariannol gyffredinol, ac felly dylai ddisgwyl am gadarnhad ysgrifenedig o swm yr arian grant yr oedd yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn y Cynulliad (oedd newydd gymryd drosodd swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)) yn barod i'w sicrhau at gost y prosiect. Roeddent hefyd yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr incwm fyddai'n cael ei greu gan sefydliadau fyddai'n dymuno defnyddio'r adnoddau yn ddigon i sicrhau hyfywedd economaidd a chynaladwyedd y prosiect. Dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau y byddai unrhyw oedi wrth gymeradwyo'r bwriad i fwrw ymlaen â'r prosiect yn effeithio ar y drefn o osod y gyllideb am y flwyddyn ariannol nesaf ac ar amserlen y gwaith adeiladu. Awgrymodd y Trysorydd i'r aelodau y gallai fod o fudd petai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gofyn iddi gadarnhau trwy lythyr y penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r arian grant ar gyfer y prosiect cyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar Hydref 23ain 2006. Yn dilyn trafodaeth fanwl, cynigwyd ac eiliwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cynigwyd gwelliant i'r argymhelliad hwn, ac fe'i heiliwyd. Gofynnwyd am bleidlais ar y gwelliant i ddechrau, ac roedd y mwyafrif o'i blaid. Felly:

***Penderfynwyd:* -**

- ***i*** ***cytuno mewn egwyddor i fwrw ymlaen â phrosiect "Tân Cyntaf" y Rhyl, gan ddisgwyl derbyn sicrwydd ysgrifenedig gan Lywodraeth y Cynulliad y byddai arian grant, yn cynnwys y symiau a ddyfarnwyd, yn cael ei ddarparu at gost y prosiect;***
- ***ii*** ***bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad yn gofyn am dderbyn y sicrwydd ysgrifenedig am yr arian cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar Hydref 23ain 2006; ac***
- ***iii*** ***fel arall, os na ddyfernir cymorth ariannol, bod y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Panel Gweithredol/Awdurdod Tân ar gyfer penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r prosiect.***

12.25pm: Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod yn y fan hon, a chadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd.

## 9) Adolygiad Uwch Gyflogau

Cyn dechrau ar yr eitem fusnes hon, holodd yr aelodau a oedd yn briodol i Brif Swyddogion y Gwasanaeth, sef y rhai yr oedd eu cyflogau'n destun yr adolygiad, i fod yn bresennol yn ystod y drafodaeth. Dywedodd y Clerc mai unig ddiben yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel oedd cytuno ar y dull i gynnal yr adolygiad; ni fyddid yn trafod symiau unrhyw daliadau. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n fwy priodol a thryloyw i Brif Swyddogion y Gwasanaeth adael ystafell y cyfarfod. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - gofyn i Brif Swyddogion y Gwasanaeth adael ystafell y cyfarfod yn ystod yr eitem fusnes hon.***

Gadawodd y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ystafell y cyfarfod am weddill y cyfarfod.

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn gofyn i'r Panel gytuno ar y trefniadau ar gyfer adolygu cyflogau'r Prif Swyddog Tân a'r uwch swyddogion eraill. Esboniodd fod yr adroddiad oedd o'u blaenau yn cynnwys gwybodaeth gefndirol a chyngor ar y ffordd i fynd ati i gynnal adolygiad o'r math yma. Ynghlwm wrth yr adroddiad, ar ffurf atodiad, oedd y cylch gwaith arfaethedig ar gyfer yr adolygiad, oedd yn rhestru ei gwmpas, ei amserlen, y cyd-destun, y fethodoleg a'r drefn o wneud penderfyniad. Cafodd yr aelodau wybod gan y Clerc a'r Trysorydd yr argymhellid defnyddio ymgynghorwyr allanol gan fod ganddynt hwy'r adnoddau i gynnal yr adolygiad sylfaenol yr oedd yr Awdurdod wedi penderfynu ei gynnal yn 2006 y tro diwethaf y cynhaliwyd adolygiad o gyflogau'r uwch swyddogion yn 2004. Hefyd, roedd manylion y profiad, y costau a'r fethodoleg a ddarparwyd gan dri chwmni o ymgynghorwyr wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Atebodd y Clerc a'r Trysorydd gwestiynau'r aelodau am y broses a rheolau'r "Llyfr Aur". Hyd nes y byddai'r adolygiad wedi ei gwblhau, ni fyddai unrhyw fodd i asesu'r goblygiadau ariannol posib i'r Awdurdod o ran costau cyflogau a fyddai'n dilyn yr adolygiad. Sicrhawyd aelodau'r Panel na fyddai'n rhaid i'r Awdurdod ddilyn yn wasaidd argymhellion yr ymgynghorwyr. Byddai canlyniad yr adolygiad yn fater i ddoethineb yr is-bwyllgor wedi iddo ystyried canfyddiadau'r ymgynghorwyr. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

*i.* ***penodi pwyllgor arbennig i gynnal adolygiad o gyflogau uwch swyddogion, a hwnnw i gynnwys y cadeirydd a'r is-gadeirydd ac un aelod o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol;***

*ii.* ***bod y Cynghorwyr J Vaughan, S Frobisher, W T Owen, G M Craddock, J A Roberts a chynrychiolydd o Sir y Fflint yn gwasanaethau ar y pwyllgor arbennig, yn ogystal â'r cadeirydd a'r is-gadeirydd;***

iii. ***bod cylch gwaith yr adolygiad fel a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad; a***
iv. ***penodi The Reward Partnership yn ymgynghorwyr i gefnogi'r adolygiad.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 12 Rhagfyr, 2006